



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol

2021



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylid anfon ymholiadau atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	3
2. Cyflwyniad	5
3. Gofynion a dull casglu data	7
4. Ansawdd y data	8
5. Data a chipolwg	9
5.1 Y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan	9
5.2 Gofal preswyl i oedolion	17
5.3 Gofal cartref	22
5.4 Gwasanaethau dydd	27
5.5 Byw â chymorth	31
5.6 Timau gwaith cymdeithasol.....	35
5.7 Gofal preswyl i blant.....	40
5.8 Gofal preswyl – iechyd meddwl	44
5.9 Gwasanaethau canolog	48
5.10 Cynorthwyr personol.....	52
5.11 Gwasanaethau eraill	54
6. Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf	55
Atodiad 1 – Eitemau data	57
Atodiad 2 – Dulliau prosesu data ac amcangyfrif	60

1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Casglwyd y data trwy arolwg o awdurdodau lleol rhwng Ebrill ac Awst 2021.

Darparodd awdurdodau lleol ddata am bobl a gyflogir gan eu gwasanaethau gofal cymdeithasol eu hunain a chan y sefydliadau y maent yn comisiynu gwasanaethau ganddynt o fewn eu ffiniau daearyddol eu hunain. Mae rhai o'r sefydliadau hyn yn darparu gofal a gomisiynir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol a gofal i bobl sy'n trefnu ac yn talu am ofal eu hunain.

Ar y cyfan, mae gwasanaethau sy'n darparu gofal ond sydd heb eu rheoleiddio ac nad ydynt yn cael eu trefnu gyda help awdurdod lleol yn cael eu heithrio o'r broses casglu data hon, er amcangyfrifir bod y gwasanaethau hyn yn llunio cyfran fechan o'r gofal a ddarperir yng Nghymru. Gallai gwasanaethau wedi'u heithrio gynnwys cymorth a drefnwyd yn breifat gan unigolyn neu deulu gyda sefydliad sydd heb ei reoleiddio, fel grŵp cymorth ffydd neu grŵp trydydd sector arall.

1.1 Cefndir

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal yr arolwg hwn yn ei gyfanrwydd. Yn flaenorol, casglwyd gwybodaeth am y gweithlu mewn tair proses casglu data ar wahân a weinyddwyd gennym ni a Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Data Cymru. Cytunwyd ar y newid i un broses fel rhan o *Fframwaith Perfformiad a Gwella* newydd Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Ebrill 2020.

Dychwelodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ddata i ni yn ystod y flwyddyn gasglu gyntaf hon. Mae'r adroddiad yn datgelu rhai o heriau'r dull newydd hwn a'r camau a gymerwn i wella ansawdd y data mewn adroddiadau yn y dyfodol. Hefyd, mae'n cynnwys atodiad technegol yn amlinellu'r dulliau a ddefnyddiom i amcangyfrif y canlyniadau, trwy gymharu data yn arolwg y gweithlu a ffynonellau eraill, sef data o'n Cofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn bennaf.

1.2 Canlyniadau

Rydym yn amcangyfrif bod tua 91,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru. O'r rhain:

- mae 81 y cant ohonynt yn fenywaidd ac 19 y cant ohonynt yn wrywaidd
- gofal preswyl i oedolion yw'r rhan fwyaf o'r sector, gan gyfrif am ychydig dros 28 y cant o'r gweithlu gofal cymdeithasol
- cynlluniau lleoli oedolion yw'r rhan leiaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynrychioli 0.2 y cant o'r cyfanswm

- rydym yn amcangyfrif bod rhyw 61,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau a gomisiynir a 30,000 o bobl mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae awdurdodau yn eu rhedeg, gan olygu bod y farchnad annibynnol ddwywaith maint gwasanaethau y mae awdurdodau yn eu rhedeg
- mae 78 y cant o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol
- mae 50 y cant o'r gweithlu'n gweithio 36 awr neu fwy yr wythnos
- daw bron i 90 y cant o'r gweithlu gofal cymdeithasol o gefndir ethnig Gwyn
- mae gan fwy na 40 y cant o'r gweithlu rywfaint o allu yn y Gymraeg.

1.3 Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf

Yn yr un modd ag unrhyw broses newydd, nodom gyfleoedd i wella a gofynnwom am adborth gan y bobl a gymerodd ran mewn ymateb i'r arolwg. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i fireinio proses casglu data y flwyddyn nesaf.

Rydym yn bwriadu newid ein rhyngwyneb defnyddwyr a'r ffordd y caiff data ei gyflwyno a'i gofnodi. Hefyd, byddwn yn casglu data yn uniongyrchol oddi wrth wasanaethau a gomisiynir, a fydd yn lleihau baich gwaith awdurdodau lleol.

Hefyd, rydym yn ystyried cyfleoedd gwella hirdymor, er enghraifft trwy weithio gyda sefydliadau partner i weld sut y gallem ddod â'n prosesau casglu data ynghyd.

1.4 Casgliad

Er y bu rhai problemau cychwynnol gyda'r arolwg cyntaf hwn, hoffem gydnabod ymdrechion pawb a gymerodd ran mewn casglu'r data. Mae'r data'n rhoi cipolwg gwerthfawr i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein dealltwriaeth ar y cyd o'r broses casglu data, a'r hyn y dywed y data wrthym, yn hollbwysig er mwyn parhau i gynnig y cymorth gorau i'r gweithlu a'r gofal a'r cymorth gorau i bobl Cymru. Bydd gwybodaeth o'r adroddiad yn hanfodol i gefnogi dulliau llwyddiannus o gynllunio'r gweithlu yn effeithiol, sef cam gweithredu allweddol yn y Strategaeth Gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a arweiniwn gydag Addysg a Gwella lechyd Cymru.¹

¹ <https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/>

2. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn 2021.

Casglom y data hwn oddi wrth awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Awst 2021. Casglodd awdurdodau lleol y data ar ein rhan, gyda phob un ohonynt yn casglu data oddi wrth ddarparwyr a oedd yn gweithredu yn eu hardal, ynghyd â chyflwyno data am eu gweithwyr gofal cymdeithasol eu hunain.

Cynllunio y broses gasglu fel ei bod mor gyflawn â phosibl, ond mae'n bwysig nodi bod y broses ond wedi caniatáu am gasglu data ar wasanaethau wedi'u rheoleiddio, neu lle y mae awdurdodau lleol yn darparu'r gofal a'r cymorth, neu'n ei gomisiynu. Ni fydd darparwyr sydd ond yn cynnig cymorth i bobl sy'n trefnu'u gofal eu hunain yn cael eu cynnwys, ond mae'r nifer hwn yn debygol o fod yn fach.

Darparodd pob un o'r 22 awdurdod lleol a bron i 2,000 o wasanaethau a gomisiynir yng Nghymru ddata ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydym am ddiolch iddynt am eu hymdrechion wrth ddarparu'r wybodaeth werthfawr hon.

Lle y bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio ffynonellau data eraill, fel y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, i gymharu ein hamcangyfrifon ac asesu cywirdeb ein cyfrifiadau.

2.1 Cefndir

Yn 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru god ymarfer newydd yn gysylltiedig â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.²

Un nod *Fframwaith Perfformiad a Gwella* newydd y cod ymarfer oedd symleiddio'r gwaith o gasglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol a lleihau dyblygu ymdrechion. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynllunio un arolwg ar gyfer casglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol.

Dechreuom ailddylunio proses yr arolwg yn 2019, ar y cyd ag oddeutu 40 o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a darparwyr annibynnol. Hefyd, gweithiom gyda rhanddeiliaid allweddol eraill gyda diddordeb mewn data am y gweithlu, fel Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Nodau'r gweithdy cychwynnol oedd cyfuno'r setiau data yn y ceisiadau amrywiol am wybodaeth am y gweithlu er mwyn:

- dileu dyblygu

² [Mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](#)

- dileu ceisiadau diangen am ddata
- cyflwyno setiau data newydd y mae ar y sector eu hangen.

Hefyd, roedd yn gyfle i gysoni ein setiau data a'n geirfa â'r rheiny y mae AGC yn gofyn amdanynt.

Daethom â rhanddeiliaid ynghyd yn rheolaidd i drafod a mireinio cynllun y broses casglu data, gan gynnwys pa ddata y dylid gofyn amdano oddi wrth gyflogwyr yn y sector ac asesu hyfywedd casglu. Gwirfoddolodd dau sefydliad i brofi'r offer casglu data.

I lansio'r broses gasglu ar gyfer 2021, cynhaliom weithdy gyda phob prif gyswllt a rheolwr y gweithlu mewn awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2021.

Yn ystod y cyfnod cyflwyno, sefydlom gyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer ymholiadau a chynigiom 'gymhorthfa' wythnosol ar gyfer pob prif gyswllt, lle y gellid mynd i'r afael â chwestiynau a phryderon cyn gynted â phosibl.

Cyflwynwyd y *Fframwaith Perfformiad a Gwella* newydd ac arolwg data newydd y gweithlu mewn cyfraith ar 1 Ebrill 2020, yn ystod ton gyntaf pandemig y coronafeirws. Cafodd gwaith ar gasgliadau newydd y gweithlu ei roi i'r naill ochr wrth i sefydliadau addasu i ffyrdd gwahanol o weithio a chyfeiriwyd eu hymdrechion tuag at ymateb i anghenion uniongyrchol y pandemig.

Ddiwedd 2020, yn dilyn blwyddyn pan na chasglwyd data gweinyddol arferol, penderfynwyd ceisio casglu'r data yn y *Fframwaith Perfformiad a Gwella* newydd ar sail 'ymdrechion gorau'. Byddai awdurdodau lleol yn casglu cymaint o'r data â phosibl i ni a Llywodraeth Cymru.

Gwnaed y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â'r grŵp gweithredol a oruchwyliodd ddatblygiad y *Fframwaith Perfformiad a Gwella* – grŵp o gynrychiolwyr o:

- Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS)
- AGC
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Llywodraeth Cymru.

Dechreuom broses casglu data'r gweithlu 2021 o dan yr un egwyddor 'ymdrechion gorau', a chyhoeddodd Sue Evans, ein Prif Weithredwr, ac Albert Heaney, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio bryd hynny, lythyr i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith hwn.

3. Gofynion a dull casglu data

Mae casgliad newydd data'r gweithlu yn cyfuno tri mecanwaith ar gyfer casglu data'r gweithlu gofal cymdeithasol:

- Casgliad 'STF1' Llywodraeth Cymru o wybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol a gyflogir gan awdurdodau lleol
- Casgliad Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC) (yr arferai Data Cymru ei reoli ar ein rhan)
- Ein data Cynllunio'r Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol.

Bwriad cyfuno'r prosesau hyn yw symleiddio casglu data a lleihau dyblygu. Mae hyn yn caniatáu am un casgliad data sy'n bodloni gofynion cenedlaethol a lleol o ran cipolwg i'r gweithlu a gwybodaeth amdano er mwyn cefnogi cynllunio'r gweithlu yn effeithiol a strategaethau recriwtio effeithiol.

Y gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys yn y casgliad yw'r gweithwyr hynny sy'n darparu gofal a chymorth fel y'u disgrifir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014³.

Mae'r broses yn cwmpasu casglu data o faes gofal cymdeithasol cyfan er mwyn cael golwg gyfannol ar siâp a maint y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector annibynnol – mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau er elw a sefydliadau'r trydydd sector fel elusennau a mentrau cymdeithasol.

Gofynnem am ddata ar:

- ofal preswyl i oedolion
- gofal preswyl i blant
- gofal cartref
- timau gwaith cymdeithasol
- gwasanaethau dydd
- byw â chymorth
- cynorthwywyr personol
- gofalwyr maeth
- cynlluniau lleoli oedolion
- staff cymorth neu ganolog
- gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill, nad ydynt yn perthyn i'r un o'r uchod.

Ni wnaethom gynnwys gwybodaeth am:

- ofal wedi'i drefnu'n breifat

³ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 – Rhan 1, Adran 4. Ystyr "gofal a chymorth"](#)

- gofal sy'n cael ei ddarparu gan y GIG yn unig
- elusennau a gwasanaethau trydydd sector eraill sydd heb eu rheoleiddio ac nad yw awdurdodau lleol yn eu comisiynu
- cyrff y llywodraeth a chyrff rheoleiddio eraill nad ydynt yn ymwneud â darparu gofal a chymorth yn uniongyrchol (fel AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru).

Gofynnem i awdurdodau lleol adrodd ar y gweithlu a oedd yn ei le ar 31 Mawrth 2021 ac i gyflwyno'r data hwn erbyn 30 Mehefin 2021, trwy borth a grëwyd yn benodol i gasglu data'r gweithlu. Newidiom y dyddiad cau i 31 Awst 2021 i gyfrif am bwysau delio â phandemig y coronafeirws.

Gweler Atodiad 1 am restr lawn o'r eitemau data a gasglom.


4. Ansawdd y data

Gwnaethom brofion trylwyr i nodi a dileu problemau â'r broses a, hefyd, siaradom â phobl mewn awdurdodau lleol i esbonio beth roedd ei angen. Ond, yn yr un modd ag unrhyw broses newydd, cawsom rai heriau.

Er bod llawer o'r eitemau data wedi'u cynnwys mewn prosesau casglu data blaenorol, gofynnem am ddata newydd hefyd. Nid oedd yr eitemau data newydd hyn yn cael eu casglu'n gyffredinol gan awdurdodau lleol neu ddarparwyr, felly roedd angen casglu data â llaw yn benodol ar gyfer y broses hon.

Er bod gan awdurdodau lleol reolaeth dros ddata am eu cyflogeion eu hunain, roeddent yn dibynnu ar ddarparwyr i gyflenwi'r data cywir. Roedd ansawdd y data a gawsom am ddarparwyr yn amrywio.

Mae'r ffigur isod yn dangos y cyfraddau cwblhau ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynir ar draws Cymru.



Cawsom wybodaeth gan 2,173 o leoliadau neu ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, o blith 2,720 o ddarparwyr posibl. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 79.9 y cant. Er nad yw hyn yn cynrychioli'r sector cyfan, mae'r ymateb hwn ar gyfer y flwyddyn gasglu gyntaf – ac yn ystod y pandemig – wedi bod yn gam calonogol tu hwnt tuag at ein nodau, sef deall y gweithlu.

Amrywiodd ymatebion yn ôl y math o wasanaeth. Roedd llawer o wasanaethau'n gallu darparu 100 y cant o'r wybodaeth y gofynnem amdani, ond cafodd eraill heriau wrth ddarparu rhywfaint o'r data y gofynnem amdano. Cafwyd y gyfradd ymateb isaf ar gyfer gwasanaethau dydd mewn gwasanaethau a gomisiynir, sef 61 y cant. Yn ôl y disgwyl, roedd cyfraddau cyflwyno data a gasglwyd yn flaenorol yn well.

Mae'r bylchau yn y data'n golygu na allwn gynnal dadansoddiad llawn o nodweddion y gweithlu cyfan heb lunio rhagdybiaethau sylweddol. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn amlinellu'r wybodaeth y gallwn fod yn hyderus yn ei chylch.

I fynd i'r afael â'r bylchau a'r anghysondebau yn y data, defnyddiom nifer o ddulliau i wirio synnwyr ein hamcangyfrifon ar gyfer y canlyniadau yn yr adroddiad hwn – disgrifir y rhain yn atodiad 2.


5. Data a chipolwg

5.1 Y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan

Derbyniom ddata ar gyfer 72,440 o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 99.4 y cant gan wasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a chyfradd ymateb o 71.5 y cant gan wasanaethau a gomisiynir.


Roeddem yn gallu amcangyfrif y niferoedd cyffredinol yn y gweithlu trwy gymharu'r ffigurau hyn â data arall, er enghraifft nifer y gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda ni, ac addasu ein hamcangyfrifon yn unol â hynny. Gan ddefnyddio'r technegau hyn, rydym yn amcangyfrif bod rhwng 85,990 a 95,332 o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 (90,661 +/- pump y cant).

Rydym yn amcangyfrif bod y gweithlu wedi'i rannu ar draws y math o wasanaeth, yn unol â'r isod:



5.1.1 Rhywedd

Dyma'r rhaniad rhywedd* ar draws pob gwasanaeth o fewn gofal cymdeithasol yng Nghymru:




* Yn ein sampl data, nododd 51 o bobl eu bod yn rhyweddhyllifol neu anneuaid. Mae'r ddau grŵp hyn yn cynrychioli llai na 0.01 y cant o'r sampl cyfan. .

Yn ôl y disgwyl, menywod yw cyfran fwyaf y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gyfrif am fwy na phedwar o bob pump o bobl a gyflogir yn y sector.

5.1.2 Proffil oedran

Caiff ystodau oedran eu dosbarthu'n fras ar draws yr ystod oedran gweithio, fel y byddem yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng y dosbarthiad oedran mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg ac mewn darparwyr a gomisiynir. Mae cyfran uwch o bobl iau (16 i 35 oed) yn cyfrif am y gweithlu mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r gwrthwyneb yn wir am wasanaethau awdurdodau lleol, gyda phobl rhwng 46 a 65 oed yn llunio'r grŵp mwyaf o gyflogion.




5.1.3 Ethnigrwydd

Mae cyfran uwch o weithwyr o gefndiroedd amrywiol yn cael eu cynrychioli yn y gweithlu gofal cymdeithasol nag ym mhoblogaeth gyffredinol⁴ Cymru.


⁴ Stats Cymru – <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-age>

Gweithwyr a ddywedodd eu bod yn Wyn sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru (89.1 y cant).



5.1.4 Sgiliau Cymraeg

Dywedwyd wrthym fod 44.2 y cant o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru'n gallu deall Cymraeg i ryw raddau. Mae dadansoddiad o'u hyfedredd yn y Gymraeg yn cael ei ddangos isod.



Mae data a adroddodd Llywodraeth Cymru⁵ yn awgrymu bod ychydig dros 22 y cant* o'r boblogaeth dros dair oed yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg,

⁵ Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru: <https://llyw.cymru/y-defnydd-or-gymraeg-yng-nghymru-canfyddiadau-cychwynnol-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020>

gyda dau y cant y gallu siarad ychydig eiriau ac 11 y cant yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Dywed data a gasglwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth⁶ yn 2021 fod 29.1 y cant* o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg.


**Mae'r ddau ddata hyn yn defnyddio categorïddio ychydig yn wahanol i'r fframwaith Sgiliau Cymraeg a ddefnyddir wrth gasglu data am y gweithlu. Mae'r rhain yn debyg i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a fframweithiau'r Gymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE) a ddefnyddir mewn manau eraill.*

5.1.5 Math o gontract

Ar y cyfan, mae 78.5 y cant o'r bobl a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru'n cael eu cyflogi ar gontractau parhaol. Nid oes gwahaniaeth rhwng cyfran y rheiny sydd ar gontractau parhaol rhwng gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a gwasanaethau a gomisiynir.

Fe wnaeth y data gynnwys gweithwyr ar gontractau ysbeidiol a dim oriau a dangosodd fod gwasanaethau a gomisiynir yn cyflogi cyfran uwch o'u staff ar y contractau hyn (16.5 y cant o gymharu ag 11.7 y cant).


Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflogi mwy o staff banc/asiantaeth mewn cysylltiad â'u gweithlu cyfan (3.0 y cant o gymharu â 0.4 y cant).



⁶ Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Y Gymraeg: <https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebrill-2020-i-fawrth-2021>

5.1.6 Patrymau gweithio

Mae patrymau gweithio ar gyfer y rheiny mewn gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynir yn weddol debyg ar gyfer gweithwyr amser llawn (36 awr a mwy). Mae gwahaniaeth amlwg yn y nifer sy'n gweithio hyd at 16 awr yr wythnos rhwng gwasanaethau a gomisiynir ac awdurdodau lleol.




5.1.7 Swyddi gwag

Ym mhroses casglu data'r gweithlu, dywedwyd bod 2,676 o swyddi gwag. Roedd 1,675 o swyddi ychwanegol yn cael 'eu cadw'n wag'⁷ gan gyflogwyr.

Gan ddefnyddio'r un dulliau ar gyfer amcangyfrif cyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, gallwn amcangyfrif bod 1,230 o swyddi ychwanegol yn wag neu'n cael eu cadw'n wag yn y sector, gan roi cyfanswm o 5,581 (+/- pump y cant) o swyddi sy'n wag neu'n cael eu cadw'n wag. Mae hyn yn cynrychioli 6.1 y cant o gyfanswm y gweithlu.

Amcangyfrifir bod 68 y cant (3,772) o'r swyddi gwag hyn mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod y 32 y cant sy'n weddill (1,809) mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg.

⁷ Mae swydd sy'n cael ei chadw'n wag yn swydd wag, y mae'r cyflogwr yn fwriadol heb ei llenwi.



5.1.8 Trosiant staff

Gofynnem am wybodaeth am bobl sy'n dechrau ac yn ymadael. Adroddwyd bod 10,423 o bobl wedi dechrau rôl newydd mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru a bod 7,987 wedi gadael gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. O'r data hyn, gallwn gyfrifo cynnydd net cyffredinol o +2,436* aelod staff yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn 2020 a 2021.

*Dim ond 81 y cant o wasanaethau a nodwyd a ddarparodd ddata ar gyfer y cwestiwn hwn, felly tanamcangyfrif ydyw. Amcangyfrifir bod y nifer go iawn rhwng +2,754 a +3,044.

Dangosir trosiant fesul maes gwasanaeth yn y tabl isod:


Labeli'r rhesi	Ymunwyr	Ymadawyr	Newid net
Cynlluniau lleoli oedolion	18	5	+13
Staff canolog	230	172	+58
Gwasanaethau dydd	99	151	-52
Gofal cartref	3,722	2,645	+1,077
Gofalwyr maeth	595	147	+448
Arall	6	2	+4
Cynorthwyyr personol	3	24	-21
Gofal preswyl – oedolion	3,665	3,140	+525
Gofal preswyl – plant	285	119	+166
Gofal preswyl – gwasanaethau iechyd meddwl	409	303	+106
Timau gwaith cymdeithasol – oedolion	205	179	+26
Timau gwaith cymdeithasol – pawb	92	28	+64
Timau gwaith cymdeithasol – plant	417	304	+113
Gwasanaethau byw â chymorth	677	768	-91
Cyfanswm	10,423	7,987	+2,436

5.1.9 Salwch

Gofynnwyd am wybodaeth am salwch ym mhroses casglu data'r gweithlu. Nid oedd cwblhau'r data hwn yn orfodol i wasanaethau a gomisiynir. Mae'r data a gawsom yn dangos bod 85,848 o ddiwrnodau wedi'u colli i salwch, ond tanamcangyfrif yw hwn gan fod y data a gawsom yn anghyflawn. Cofnodwyd bod 76 y cant o'r diwrnodau wedi'u colli i salwch hirdymor a 24 y cant i salwch byrdymor.

Dyma'r rhesymau a roddwyd dros absenoldeb oherwydd salwch yng nghasgliad 2021:

Y gweithlu gofal cymdeithasol - rheswm dros yr absenoldeb



'Afiechydon eraill' oedd y prif gategori, gan gyfrif am dros draean o'r holl absenoldebau a adroddwyd oherwydd salwch. Roedd materion iechyd meddwl (gan gynnwys straen) yn cyfrif am 36.5 y cant o absenoldeb oherwydd salwch, gyda'r traean sy'n weddill yn gysylltiedig ag anafiadau i'r cefn neu anafiadau eraill i fraich/coes a 'salwch cyffredin' (er enghraifft annwyd, y ffliw ac afiechyd gastroberfeddol).


Ni chasglom ddigon o ddata yn yr arolwg hwn i archwilio'r categorïau hyn yn fanylach. Bwriadwn ymhelaethu ar y rhan hon o'r arolwg yn y dyfodol.

5.2 Gofal preswyl i oedolion

Cawsom wybodaeth am 20,366 o weithwyr yn y sector gofal preswyl i oedolion. O hyn, amcangyfrifwn fod oddeutu 30,531 o bobl yn gweithio mewn gofal preswyl i oedolion yng Nghymru. Dyma'r grŵp mwyaf o staff, gan gyfrif am bron i un o bob tri o bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol rheng flaen yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif bod gwasanaethau gofal preswyl a gomisiynir i oedolion yn cyflogi dros 5 gwaith nifer y bobl â gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg.

Roedd y cyfraddau ymateb ar gyfer gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg yn uwch o lawer na'r gwasanaethau a gomisiynir, fel y gwelwn isod.


Awdurdod Lleol



- Data a ddychwelwyd (%)
- Data heb ei ddychwelwyd (%)

n=92

Darparwr a Gomisiynir




- Data a ddychwelwyd (%)
- Data heb ei ddychwelwyd (%)

n=648

5.2.1 Gofal preswyl i oedolion – math o rôl


Mae gweithwyr gofal yn cyfrif am 58 y cant o'r gweithlu gofal preswyl i oedolion, fel y dangosir isod. Y categori mwyaf nesaf yw 'arall' ac mae'n debygol o gynnwys staff gweinyddol a staff ategol.

Gofal preswyl i oedolion - math o rôl



5.2.2 Gofal preswyl i oedolion – rhywedd


Mae'r rhaniad rhywedd ar gyfer gofal preswyl i oedolion yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a welwn ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan yng Nghymru, gyda menywod yn y rhan fwyaf o swyddi.



5.2.3 Gofal preswyl i oedolion – proffil oedran


Mae'r proffil oedran ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn debyg yn fras i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan. Mae cyfran uwch o'r rheiny sy'n gweithio mewn gofal preswyl awdurdodau lleol i oedolion yn y grwpiau oedran hŷn, ac mae gweithwyr mewn gofal preswyl a gomisiynir i oedolion wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws y grwpiau oedran. Mae cyfrannau tebyg yn fras (3.4 y cant, 2.8 y cant) yn y grŵp oedran dros 65 oed mewn awdurdodau lleol ac mewn gwasanaethau a gomisiynir.

Gofal preswyl i oedolion - proffil oedran




5.2.4 Gofal preswyl i oedolion – ethnigrwydd

Adroddodd awdurdodau lleol a darparwyr fod cyfran y gweithwyr Du neu Ddu Prydeinig, neu Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, yn uwch mewn gofal preswyl i oedolion nag ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru.




5.2.5 Gofal preswyl i oedolion – math o gontract

Mae dros 90 y cant o staff a gyflogir mewn gofal preswyl a gomisiynir i oedolion yn cael eu cyflogi'n barhaol. Mae golwg ychydig yn wahanol ar y darlun ar gyfer gofal preswyl awdurdodau lleol i oedolion, gyda 69.3 y cant yn unig o'r staff hyn yn cael eu cyflogi'n barhaol. Mae ychydig dros un o bob pedwar o bobl sy'n gweithio mewn gofal preswyl awdurdodau lleol i oedolion yn cael eu cyflogi ar gontract ysbeidiol/dim oriau. Mae hyn yn cynrychioli 1,191 tybiedig o bobl.



5.2.6 Gofal preswyl i oedolion – patrymau gweithio

Mae dros draean (33.24 y cant) o'r rheiny sy'n gweithio mewn gwaith gofal preswyl i oedolion i'r awdurdodau lleol yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, ac mae ychydig yn llai na 10 y cant o'r gweithlu gofal preswyl a gomisiynir i oedolion yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Mae bron i hanner (48.7 y cant) o'r rheiny mewn gofal preswyl i oedolion a gomisiynir yn gweithio oriau amser llawn.




5.2.7 Gofal preswyl i oedolion – swyddi gwag

Roedd gofal preswyl i oedolion yn cyfrif am y nifer ail uchaf o swyddi gwag yn yr arolwg, gydag oddeutu 1,701 o swyddi gwag ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn golygu bod 5.3 y cant o swyddi mewn gofal preswyl i oedolion heb eu llenwi. Roedd ychydig yn fwy o swyddi gwag mewn gwasanaethau a gomisiynir (6.3 y cant) nag mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg (5.2 y cant).

5.3 Gofal cartref

Cawsom wybodaeth am 15,189 o weithwyr gofal cartref, yn cynrychioli 100 y cant (4,201) o weithlu gofal cartref awdurdodau lleol, ond 66.8 y cant yn unig o'r gweithlu gofal cartref a gomisiynir.




Fe wnaethom groesgyfeirio'r wybodaeth hon â nifer y bobl sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal cartref ar 1 Ebrill 2021. Mae'r data⁸ hyn yn awgrymu bod 23,108 o bobl yn gweithio mewn gofal cartref ar draws Cymru. O gofio bod cofrestru yn orfodol, mae hyn yn debygol o gynrychioli nifer y gweithwyr gofal cartref yng Nghymru yn fwy cywir. Mae gofal cartref yn cynrychioli 22.8 y cant o'r holl weithwyr yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a dyma'r gwasanaeth ail fwyaf.

⁸ [Data a gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)


5.3.1 Gofal cartref – math o rôl

Rolau gweithwyr gofal sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o staff yn y maes gwasanaeth hwn, yn ôl y disgwyl.



5.3.2 Gofal cartref – rhywedd

Mae cyfran y gweithwyr benywaidd o gymharu â gweithwyr gwrywaidd ychydig uwchlaw'r hyn a welwn yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, gyda menywod mewn 88 y cant o rolau gofal cartref o gymharu ag 81 y cant yn y gweithlu cyfan. Adroddodd 38 o weithwyr gofal cartref eu bod yn rhyweddhyllifol.




5.3.3 Gofal preswyl – proffil oedran

Mae proffiliau oedran yn debyg yn fras i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg fod pobl iau yn fwy tebygol o weithio

mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pobl hŷn yn fwy tebygol o weithio mewn gofal cartref y mae awdurdodau lleol yn ei redeg.


Gofal cartref - proffil oedran



5.3.4 Gofal cartref – ethnigrwydd


Mae pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn cynrychioli cyfran uwch o'r gweithlu gofal cartref nag y byddem yn ei weld yn y boblogaeth gyffredinol.

Y gweithlu gofal cymdeithasol - ethnigrwydd




5.3.5 Gofal cartref – math o gontract

Mae 87.3 y cant o'r staff a gyflogir mewn gwasanaethau gofal cartref awdurdodau lleol yn cael eu cyflogi'n barhaol. Mae hyn yn gostwng i 53.5 y cant ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Mae bron i 44 y cant o staff a gyflogir mewn gofal cartref a gomisiynir yn cael eu cyflogi ar gontractau ysbeidiol neu ddim oriau.



5.3.6 Gofal cartref – patrymau gweithio

Nid yw un grŵp penodol yn dominyddu patrymau gweithio ar gyfer gofal cartref, er bod gan y rheiny sy'n gweithio oriau rhan-amser yn y mwyafrif o ryw ychydig. Mae awdurdodau lleol yn fwy tebygol o gynnig contractau gyda llai o oriau na gwasanaethau a gomisiynir, gyda 27.3 y cant o weithwyr gofal cartref awdurdodau lleol yn gweithio hyd at 16 awr yr wythnos.




5.3.7 Gofal cartref – swyddi gwag

Mae swyddi gofal cartref gwag yn cyfrif am dros 35 y cant o gyfanswm y swyddi gwag ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynrychioli 1,979 o swyddi gwag tybiedig. Dyma'r nifer uchaf o swyddi gwag mewn unrhyw wasanaeth ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, er mai dyma'r gwasanaeth ail fwyaf. Mae tua 7.9 y cant o rolau heb eu llenwi.


5.4 Gwasanaethau dydd

Rydym yn amcangyfrif bod 2,857 (+/- pump y cant) o bobl yn gweithio yn y sector gwasanaethau dydd yng Nghymru (2,231 mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a 626 mewn gwasanaethau a gomisiynir). Mae'r gweithwyr hyn yn cynrychioli 3.2 y cant o gyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ym maes gwasanaethau dydd y cafwyd y nifer isaf o ymatebion gan ddarparwyr a gomisiynir.




5.4.1 Gwasanaethau dydd – math o rôl

Mae'r rolau canlynol yn cyfrif am y gweithlu gwasanaethau dydd.




5.4.2 Gwasanaethau dydd – rhywedd

Rydym yn gweld newid arwyddocaol yng nghynrychiolaeth y rhywedd yn y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau dydd yng Nghymru, gyda dynion yn cyfrif am 29 y cant o swyddi'r sector. Mae hyn 10 y cant yn fwy na'r hyn a welwn ym mhoblogaeth y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan.




5.4.3 Gwasanaethau dydd – proffil oedran

Yn yr un modd â gwasanaethau preswyl a gofal dydd, gwelwn yr un gwahaniaethau ar draws grwpiau oedran ar draws gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a gwasanaethau a gomisiynir.




5.4.4 Gwasanaethau dydd – ethnigrwydd

Mae mwy o gynrychiolaeth o lawer o weithwyr â chefnidiroedd ethnig cymysg yn y sector gwasanaethau dydd nag y byddem yn disgwyl ei weld ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru. Adroddwyd bod bron i un o bob pump gweithiwr mewn gwasanaethau dydd o gefndir ethnig cymysg.




5.4.5 Gwasanaethau dydd – math o contract

Mae'r rhan fwyaf o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau dydd yn cael eu cyflogi'n barhaol. Ond mae cyfrannau sylweddol o staff sy'n gweithio ar gcontractau dros dro a chontractau ysbeidiol neu ddim oriau. Mae'r rhain yn uwch mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg (26.6 y cant) nag mewn gwasanaethau a gomisiynir (15.4y cant). Awgrymodd yr arolwg nad yw staff banc neu asiantaeth yn cael eu defnyddio mewn gwasanaethau dydd yng Nghymru, ond ni allwn ddiystyru hyn oherwydd cafwyd llai o ymatebion gan wasanaethau a gomisiynir.



5.4.6 Gwasanaethau dydd – patrymau gweithio

Mae cyfran y rheiny sy'n gweithio oriau amser llawn ychydig yn uwch mewn gwasanaethau dydd y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg nag mewn gwasanaethau a gomisiynir, gyda 60.9 y cant yn gweithio 36 awr neu fwy yr wythnos.




5.4.7 Gwasanaethau dydd – swyddi gwag

Dangosodd yr arolwg fod 280 o swyddi gwag. Roedd 57 o'r swyddi hyn yn cael eu cadw'n wag gan gyflogwyr. Mae gwasanaethau dydd yn cyfrif am ryw 5 y cant o gyfanswm y swyddi gofal cymdeithasol gwag yng Nghymru.


5.5 Byw â chymorth

Nid oedd gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg na gwasanaethau a gomisiynir yn gallu darparu ymatebion llawn ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth. Rydym yn amcangyfrif bod 7,750 o bobl (+/- pump y cant) yn gweithio yn y sector hwn (996 mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a 6,754 mewn gwasanaethau a gomisiynir). Mae hyn yn cynrychioli 8.6 y cant o gyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.




5.5.1 Byw â chymorth – math o rôl

Mae'r rolau canlynol yn llunio'r gweithlu byw â chymorth.



5.5.2 Byw â chymorth – rhywedd


Mae un o bob pedwar gweithiwr ym maes byw â chymorth yn wrywaidd. Mae hyn yn uwch na'r un o bob pump a welir yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan.



5.5.3 Byw â chymorth – proffil oedran


Gweithwyr 46 oed a hŷn sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithlu mewn gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu rhedeg. Mae dosbarthiad gweithwyr mewn gwasanaethau byw â chymorth a gomisiynir yn fwy cyfartal

ar draws grwpiau oedran, gydag ychydig o duedd tuag at y rheiny yn y grwpiau oedran 26 i 35 oed a 46 i 55 oed.




5.5.4 Byw â chymorth – ethnigrwydd

Yn yr un modd â gofal cartref, adroddir bod gan bron i un o bob pum gweithiwr yn y sector byw â chymorth ethnigrwydd cymysg. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu un y cant o boblogaeth gyffredinol Cymru.




5.5.5 Byw â chymorth – math o gymorth

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr (87.4 y cant) mewn gwasanaethau byw â chymorth ar gontractau parhaol. Mae cyfran uwch o weithwyr (89.7 y cant) mewn gwasanaethau a gomisiynir ar gontractau parhaol nag mewn gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu rhedeg (76.8 y cant). Mae awdurdodau lleol yn cyflogi mwy o weithwyr ar gontractau ysbeidiol neu ddim oriau (18.9 y cant) na gwasanaethau a gomisiynir (5.2 y cant).



5.5.6 Byw â chymorth – patrymau gweithio

Mae gwahaniaeth amlwg yn y patrymau gweithio rhwng gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu rhedeg. Mae patrymau gweithio mewn gwasanaethau a gomisiynir yn tueddu tuag at weithio amser llawn (58.8 y cant) am 36 awr a mwy yr wythnos, gyda mwy o weithwyr mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg ar oriau rhan-amser (42.3 y cant).



5.5.7 Byw â chymorth – swyddi gwag


Adroddodd yr arolwg fod 264 o swyddi gwag mewn gwasanaethau byw â chymorth, gyda 155 o swyddi'n cael eu cadw'n wag. Rydym yn amcangyfrif bod 76 o swyddi gwag ychwanegol neu swyddi sy'n cael eu cadw'n wag yn y rhan hon o'r sector, ar sail cyfran y gwasanaethau a ddarparodd ddata. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 340 o swyddi yn y sector neu oddeutu chwech y cant o'r holl swyddi gwag yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

5.6 Timau gwaith cymdeithasol

Mae'r data a gafwyd ar gyfer yr adran hon yn cynnwys amrywiaeth o fathau o rolau o dan adran 'gwaith cymdeithasol' yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o weithwyr rheng flaen nad oes angen iddynt gofrestru gyda ni, a gweithwyr cymdeithasol, sy'n gorfod cofrestru.

Cawsom ddata cyflawn gan dimau gwaith cymdeithasol mewn awdurdodau lleol a 90 y cant gan dimau gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau a gomisiynir. Rydym yn amcangyfrif bod 7,375 o bobl yn gweithio yn y rolau hyn. O'r rhain, mae 3,976 yn gweithio mewn gofal cymdeithasol i blant, 2,610 mewn gofal cymdeithasol i oedolion a 789 mewn timau sy'n gweithio gydag oedolion a phlant. Mae bron pob un (98.11 y cant) o'r bobl hyn yn gweithio mewn gwasanaethau awdurdodau lleol.


Awdurdod Lleol



■ Data a ddychwelwyd (%)

n=378

Darparwr a Gomisiynir



■ Data a ddychwelwyd (%)


■ Data heb ei ddychwelwyd (%)

n=13

5.6.1 Timau gwaith cymdeithasol – math o rôl


Mae'r arolwg yn dangos bod 3,954 o weithwyr cymdeithasol cofrestredig yn gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen. O gymharu nifer y gweithwyr cymdeithasol yr adroddwyd amdanynt yn yr adran hon â nifer y gweithwyr cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ar 1 Ebrill 2021⁹, rydym yn gweld gwahaniaeth sy'n awgrymu mai dim ond 61.1 y cant o nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr sy'n gweithio fel ymarferwyr a rheolwyr sydd ag achosion penodol. Yn y data a gasglom, ni allwn weld ymhle mae gweddill y gweithwyr cymdeithasol cofrestredig yn cael eu cyflogi, ond tybir eu bod mewn swyddi uwch-reolwr (cyfarwyddwr, pennaeth gwasanaeth), rolau asiantaeth a llawrydd, ac yn gweithio mewn swyddi datblygu sefydliadol a strategol.

Timau gwaith cymdeithasol - math o rôl



⁹ https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Social-Workers-factsheet-CYM-2021.pdf


Caiff rolau gweithwyr cymdeithasol cofrestredig eu rhannu yn ôl yr is-gategoriâu a ddangosir isod.



O'r holl weithwyr cymdeithasol cofrestredig yr adroddwyd eu bod yn y swyddi hyn, mae bron i hanner ohonynt wedi cymhwyso ers tair blynedd neu fwy, gyda 15.4 y cant pellach mewn rolau uwch ymarferwyr a 12.3 y cant mewn rolau rheolwyr. Mae 233 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso (blwyddyn gyntaf mewn ymarfer) ac maent yn cyfrif am ychydig dros 5 y cant o gyfanswm nifer y gweithwyr cymdeithasol cofrestredig sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau rheng flaen.


5.6.2 Timau gwaith cymdeithasol – rhywedd

Mae 85 y cant o bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen yng Nghymru yn fenywod. Mae hyn ychydig yn fwy na'r hyn a welwn yn y sector gofal cymdeithasol cyfan yng Nghymru (81 y cant).




5.6.3 Timau gwaith cymdeithasol – proffil oedran

Mae dosbarthiadau oedran gweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen yn cyd-fynd â'r hyn y byddech yn disgwyl ei weld ar draws yr ystodau oedran, gydag ychydig o duedd tuag at y grŵp oedran 56 i 65 oed yn achos y rheiny sy'n gweithio mewn gwasanaethau awdurdodau lleol.




5.6.4 Timau gwaith cymdeithasol – ethnigrwydd

Mae poblogaeth y gweithlu rheng flaen yn debyg yn fras i boblogaeth gyffredinol Cymru o ran ethnigrwydd.




5.6.5 Timau gwaith cymdeithasol – math o gontract

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr rheng flaen (84.2 y cant) yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol.



5.6.6 Timau gwaith cymdeithasol – patrymau gweithio

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr rheng flaen dan gontract fel staff amser llawn. Mae'r nifer bach o weithwyr rheng flaen sydd yn y sector annibynnol ddwywaith yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser nag mewn awdurdodau lleol.



5.6.7 Timau gwaith cymdeithasol – swyddi gwag a throsiant

Mae 726 o swyddi gwag mewn timau rheng flaen (462 mewn timau gwaith cymdeithasol plant, 261 mewn timau gwaith cymdeithasol oedolion a thri mewn timau sy'n gweithio gydag oedolion a phlant). O'u hystyried ynghyd, mae'r rhain yn cyfrif am 13 y cant o'r swyddi gofal cymdeithasol gwag yng Nghymru ac yn cynrychioli cyfradd swyddi gwag sy'n 10 y cant o weithlu'r timau gwaith cymdeithasol. Eto, mae'n bwysig egluro y gall y swyddi gwag hyn ymwneud ag unrhyw fath o rôl yn y gwasanaeth gwaith cymdeithasol, nid dim ond gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.


O'r swyddi gwag mewn gwasanaethau rheng flaen yng Nghymru, roedd 239 (33 y cant) yn cael eu dal yn wag gan gyflogwyr.

Mae data a roddwyd i ni yn awgrymu bod 701 o bobl wedi ymuno â'r timau gwaith cymdeithasol yn 2021 a bod 507 wedi gadael, gan roi cynnydd net o 199 o staff.

Pan fyddwn yn ystyried swyddi gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn unig, mae'r data hyn yn dangos bod 412 wedi ymuno a 295 wedi ymadael, gan roi cynnydd net o 117.


5.7 Gofal preswyl i blant

Darparodd yr holl awdurdodau lleol ac ychydig dros 70 y cant o ddarparwyr annibynnol ddata am eu gweithwyr gofal preswyl i blant. Amcangyfrifir bod 1,838 o bobl (+/- pump y cant) yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru.




5.7.1 Gofal preswyl i blant – math o rôl

Mae'r mathau canlynol o rolau yn llunio'r gwasanaeth gofal preswyl i blant, gyda thros 85 y cant o bobl yn gweithio fel gweithwyr gofal neu uwch weithwyr gofal.




5.7.2 Gofal preswyl i blant – rhywedd

Mae cyfran y gwrywod sy'n gweithio mewn gofal preswyl i blant yn uwch o lawer na'r hyn a welwn yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan. Mae un o bob tri gweithiwr yn y maes gwasanaeth hwn yn wrywaidd.




5.7.3 Gofal preswyl i blant – proffil oedran

Mae oedrannau gweithwyr awdurdodau lleol mewn gofal preswyl i blant yn dilyn yr un dosbarthiad a'r hyn a welwn yn y boblogaeth oed gweithio. Mae cyfran y bobl iau (26 i 35 oed) yn uwch o lawer mewn gwasanaethau a gomisiynir. Hefyd, mae gwahaniaeth amlwg yn y grŵp oedran 16 i 25 oed. Mae hyn yn dilyn yr hyn a welom mewn meysydd gwasanaeth eraill, gyda gweithwyr iau yn fwy tebygol o lawer o gael eu cyflogi yn y sector annibynnol.




5.7.4 Gofal preswyl i blant – ethnigrwydd

Yn yr un modd â gwaith cymdeithasol, mae ethnigrwydd mewn gofal preswyl i blant yn debyg yn fras i boblogaeth gyffredinol Cymru.




5.7.5 Gofal preswyl i blant – math o gontract

Mae cyfran y staff a gyflogir o dan gontractau ysbeidiol neu ddim oriau yn uwch o lawer mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg nag mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae dros 90 y cant o'r rheiny a gyflogir mewn gofal preswyl annibynnol i blant yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol.



5.7.6 Gofal preswyl i blant – patrymau gweithio

Mae'r rheiny sy'n gweithio mewn gofal preswyl i blant y mae awdurdodau lleol yn ei redeg yn fwy tebygol o lawer o weithio'n rhan-amser. Mae dros 85 y cant o'r rheiny sy'n gweithio mewn gwasanaethau a gomisiynir yn gweithio oriau amser llawn.




5.2.7 Gofal preswyl i blant – swyddi gwag

Adroddwyd am 141 o swyddi gwag mewn gofal preswyl i blant, gyda 61 swydd yn cael eu cadw'n wag. Roedd hyn yn cynrychioli 2.5 y cant o'r holl swyddi gofal cymdeithasol gwag yng Nghymru. Yn gyfan gwbl, rydym yn amcangyfrif bod 142 o swyddi gwag mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021.


5.8 Gofal preswyl – iechyd meddwl

Ymatebodd yr holl wasanaethau iechyd meddwl preswyl, y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a gwasanaethau a gomisiynir, i'r arolwg. Roedd 2,174 o bobl yn gweithio yn y sector hwn ar 31 Mawrth 2021. Mae'r sector gofal preswyl annibynnol ar gyfer iechyd meddwl yn fwy o lawer na'r gwasanaethau hynny y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg, gyda 140 o bobl yn gweithio mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a 2,034 yn gweithio yn y sector annibynnol.




5.8.1 Gofal preswyl, iechyd meddwl – math o rôl

Mae'r mathau canlynol o rôl yn llunio'r gweithlu gofal preswyl ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.




5.8.2 Gofal preswyl, iechyd meddwl – rhywedd

Mae 23 y cant o'r gweithlu ar gyfer gofal preswyl iechyd meddwl yn wrywaidd. Mae hyn ychydig yn uwch na'r hyn a welwn yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan (19 y cant).




5.8.3 Gofal preswyl, iechyd meddwl – proffil oedran

Mae cyfran y bobl yn y grwpiau oed hŷn (46 oed a hŷn) yn uwch mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg nag mewn gwasanaethau a gomisiynir.




5.8.4 Gofal preswyl, iechyd meddwl – ethnigrwydd

Mae gweithwyr gofal preswyl mewn gwasanaethau iechyd meddwl ychydig yn fwy tebygol o ddod o gefndir ethnig amrywiol na'r hyn y byddem yn ei weld ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru.




5.8.5 Gofal preswyl, iechyd meddwl – math o gontract

Mae tua hanner y gweithwyr mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol, o gymharu â mwy na 90 y cant o'r rheiny mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae bron i 46 y cant o weithwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl preswyl y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg yn cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau neu ysbeidiol, o gymharu ag ychydig o dan dri y cant mewn gwasanaethau a gomisiynir.



5.8.6 Gofal preswyl, iechyd meddwl – patrymau gweithio

Fel y gwelwyd mewn gwasanaethau eraill, mae cyfran uwch o lawer o weithwyr mewn gwasanaethau a gomisiynir (78.8 y cant) yn cael eu cyflogi i weithio oriau amser llawn nag mewn awdurdodau lleol. Mae dros hanner y bobl mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg dan gontract i weithio hyd at 16 awr yr wythnos, o gymharu â llai na phump y cant mewn gwasanaethau a gomisiynir.




5.8.7 Gofal preswyl, iechyd meddwl – swyddi gwag

Dangosodd yr arolwg 120 o swyddi gwag mewn gwasanaethau preswyl ar gyfer iechyd meddwl yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 2.2 y cant o'r holl swyddi gofal cymdeithasol gwag yng Nghymru. Roedd 50 o'r swyddi hyn yn cael eu cadw'n wag gan gyflogwyr.

5.9 Gwasanaethau canolog


Mae gwasanaethau canolog yn cynnwys swyddi swyddfa gefn, cymorth busnes, domestig, arlwyo a swyddi ategol eraill y mae ar sefydliadau eu hangen fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Ymatebodd holl wasanaethau canolog awdurdodau lleol ac 83 y cant o wasanaethau canolog darparwyr a gomisiynir i'n harolwg.

Rydym yn amcangyfrif bod 3,113 o bobl yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau canolog, gyda 2,574 yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol a 539 mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros 4 y cant o gyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol.




5.9.1 Gwasanaethau canolog – math o rôl

Mae'r mathau canlynol o rôl yn llunio'r gweithlu gwasanaethau canolog.




5.9.2 Gwasanaethau canolog – rhywedd

Mae un o bob pedwar aelod staff gwasanaethau canolog yn wrywaidd. Mae hyn ychydig yn uwch na'r hyn a welwn yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan (19 y cant).




5.9.3 Gwasanaethau canolog – proffil oedran

Yn yr un modd â chategorïau staff yr adroddir amdanynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae cyfran y gweithwyr iau (45 oed ac iau) mewn awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn fwy mewn gwasanaethau a gomisiynir.




5.9.4 Gwasanaethau canolog – ethnigrwydd

Mae cefndir ethnig gweithwyr gwasanaethau canolog yn adlewyrchu poblogaeth gyffredinol Cymru, gyda 96 y cant o weithwyr yn dod o gefndiroedd Gwyn.




5.9.5 Gwasanaethau canolog – math o gontract

Mae bron pob gweithiwr mewn gwasanaethau canolog yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol.



5.9.6 Gwasanaethau canolog – patrymau gweithio

Mae bron i 80 y cant o weithwyr mewn gwasanaethau canolog yn gweithio oriau amser llawn, gyda bach iawn o wahaniaethau yn oriau gweithwyr mewn gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg a gwasanaethau a gomisiynir.



5.9.7 Gwasanaethau canolog – swyddi gwag


Yn ôl amcangyfrif, mae gan wasanaethau canolog 235 o swyddi gwag sy'n cynrychioli 4.2 y cant o'r holl swyddi gofal cymdeithasol gwag yng Nghymru. Mae 84 o'r swyddi gwag hyn yn cael eu cadw'n wag gan gyflogwyr.

5.10 Cynorthwyr personol

Darparodd y rhan fwyaf o sefydliadau ddata am gynorthwyr personol. Amcangyfrifir bod 10,266 o gynorthwyr personol yng Nghymru (5,096 yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol a 5,170 yn gweithio'n annibynnol). Ond nid oes gennym ddigon o ddata i ddadansoddi'r nodweddion canlynol yn ddibynadwy:

- proffil oedran
- ethnigrwydd
- math o gontract
- swyddi gwag.

Yn ddiweddar, dechreuodd Prifysgol De Cymru (PDC) brosiect ymchwil ar gynorthwyr personol ar ran Llywodraeth Cymru¹⁰, i wella ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth gyfunol.




5.10.1 Cynorthwyr personol – math o rôl

Nid yw'r categori hwn o weithiwr wedi'i rannu'n is-rolau; caiff yr holl weithwyr eu categorio yn ôl math o rôl cynorthwydd personol.

5.10.2 Cynorthwyr personol – rhywedd

Mae pedwar o bob pump cynorthwydd personol yn fenywaidd. Mae hyn yn gyson â'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan (81 y cant yn fenywaidd).




¹⁰ Arolwg ar Gynorthwyr Personol: <https://cavs.org.uk/2021/11/cynorthwyr-personol-yng-nghymru-rydyn-nin-awyddus-i-glywed-gennyh-chi/?lang=cy>

5.10.6 Cynorthwyr personol – patrymau gweithio

Yn yr un modd â gwasanaethau eraill, roedd cynorthwyr personol a gomisiynwyd trwy awdurdodau lleol yn fwy tebygol o fod ar contractau rhan amser o hyd at 16 awr na'r rheiny sy'n gweithio'n annibynnol.

Dim ond 6.2 y cant o'r gweithlu cynorthwyr personol cyfan a gyflogir ar contract amser llawn, gydag 20 y cant o gynorthwyr personol sy'n gweithio'n annibynnol yn cael eu cyflogi ar sail amser llawn a 5.9 y cant o gynorthwyr personol a gomisiynir trwy drefniadau awdurdodau lleol yn gweithio ar sail amser llawn.



5.11 Gwasanaethau eraill

Casglom wybodaeth oddi wrth wasanaethau gofal cymdeithasol eraill yn ystod proses casglu data'r gweithlu 2021. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- cynlluniau lleoli oedolion
- gwasanaethau gofal maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth)
- gwasanaethau eraill.

Er bod y gwasanaethau hyn wedi'u cynnwys yn ein hamcangyfrifon cyffredinol ynghylch y gweithlu, ni chawsom ddigon o ddata o ansawdd uchel i gyfrifo amcangyfrifon dibynadwy ar gyfer priodoleddau eraill y gwasanaethau hyn. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr i sicrhau gwell ansawdd yn 2022.

6. Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf

Mae lansio proses casglu data newydd yn anodd ar y gorau. Cyflwynodd lansio'r broses ddiwygiedig yn ystod pandemig y coronafeirws set ychwanegol o heriau.

Dibynnodd y flwyddyn gyntaf hon o'r dull newydd ar awdurdodau lleol i gasglu'r holl data a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o fewn eu ffiniau daearyddol. Wynebodd rhai awdurdodau lleol heriau mwy sylweddol nag eraill wrth gasglu data.

Dim ond wrth gasglu data y daeth rhai problemau i'r wyneb. Roedd y problemau hyn yn cynnwys camddeall y gofynion, namau yn yr offer casglu, a'r adnoddau a oedd ar gael mewn awdurdodau lleol i wneud y gwaith casglu yn ystod y pandemig.

Ar ôl y casglu, cynhaliom weithdy 'gwersi a ddysgwyd' gyda phawb a gyfrannodd. Ei ddiben oedd dal themâu na sylwom arnynt yn ystod y broses gasglu ac roedd yn gyfle i ddarparwyr data ddweud wrthym am eu profiad o'r broses.

Amlygom welliannau i strwythur yr arolwg a'r ffordd y cafodd ei weinyddu, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- rhyngwyneb gwell i ddefnyddwyr ac offer casglu mwy greddfodol
- mwy o awtomeiddio a dilysu'r broses
- dogfennaeth well a manylach
- amserlen gasglu fwy realistig
- lleihau dyblygu ymdrechion wrth fwydo data i'r porth a galluogi cyflwyno iffeiliau data lluosog (gweithdrefnau lanlwytho swmp)
- defnyddio codau sy'n gyson â safonau cytunedig (fel Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) fel safon rhuglder mewn iaith a chodau Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol Clefydau (ICD-10) ar gyfer rhesymau salwch).

Yn ogystal, daeth ein dadansoddiad o'r data hyd i gyfleoedd i wella mathau penodol o ddata, yn enwedig data am:

- gynorthwyr personol
- salwch
- gofalyr maeth a chynlluniau lleoli oedolion
- ethnigrwydd a nodweddion gwarchoddedig eraill
- recriwtio a chadw gweithwyr
- dysgu a datblygu
- nodweddion darparwyr.

Mae'r gwahaniaethau yn ansawdd a chyflawnder y data a gyflwynwyd rhwng awdurdodau lleol yn awgrymu bod yr arolwg wedi bod yn fwy heriol i rai awdurdodau lleol nag eraill. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod gosod y cyfrifoldeb am gasglu data'r gweithlu oddi wrth bob darparwr yn eu hardal yn faich sylweddol ar eu hadnoddau prin ac y byddai'n well cydlynu hynny o un pwynt canolog.

Am y rheswm hwn, byddwn yn casglu'r data hwn am y gweithlu yn uniongyrchol oddi wrth ddarparwyr yn y dyfodol. Bydd y newid hwn yn caniatáu i ddarparwyr sy'n gweithio ar draws nifer o awdurdodau lleol ddarparu data unwaith a bydd yn lleihau'r baich casglu data ar awdurdodau lleol yn sylweddol.

Byddwn yn gwella'r offer, y canllawiau a'r prosesau er mwyn gwella ansawdd y data a lleihau'r gwaith ychwanegol y mae ei angen i ymateb i'r arolwg. Hefyd, byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid drwy gydol y broses i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Hefyd, rydym wedi dechrau ymchwilio i'r cyfle hirdymor i uno prosesau casglu data ychwanegol, er enghraifft gweithio gydag AGC i amlygu cydweithio wrth gasglu data. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i wella'r offer a ddefnyddir i gasglu, gan ychwanegu dilysu ychwanegol ar gyfer data wrth ei lanlwytho.

Atodiad 1 – Eitemau data

Math o leoliad

- Cynlluniau lleoli oedolion
- Gofal preswyl – oedolion
- Gofal preswyl – gwasanaethau iechyd meddwl
- Gofal preswyl – plant
- Gofal cartref
- Gwasanaethau byw â chymorth
- Gwasanaethau dydd
- Timau gwaith cymdeithasol – oedolion
- Timau gwaith cymdeithasol – plant
- Timau gwaith cymdeithasol – pawb
- Cynorthwywyr personol
- Gofalwyr maeth
- Staff (cymorth) canolog

Diffiniad o'r rôl

- Rheolwr lleoli oedolion
- Gweithiwr lleoli oedolion
- Cynghorydd/cynlluniwr
- Aseswr
- Gweithiwr gofal
- Gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol
- Dirprwy reolwr
- Dirprwy reolwr tîm (gwaith cymdeithasol)
- Cyfarwyddwr
- Gofalwr maeth
- Pennaeth gwasanaeth (cyfarwyddwr cynorthwyol)
- Sicrhawr ansawdd mewnol (IQA)
- Rheolwr
- Cynorthwydd nyrsio/Nyrs gynorthwyol
- Therapydd galwedigaethol
- Cynorthwydd therapi galwedigaethol
- Staff eraill
- Rheolwr arall
- Cynorthwydd personol
- Ffisiotherapydd
- Cynlluniwr
- Nyrs gofrestrdig
- Staff nyrsio cofrestrdig
- Uwch weithiwr gofal
- Uwch ymarferwr
- Rheolwr gwasanaeth/Prif swyddog
- Rheolwr cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol
- Swyddog gweithredol cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol
- Swyddog cymorth cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol
- Gweithiwr cymdeithasol (2 i 3 blynedd)
- Gweithiwr cymdeithasol (3+ blynedd)
- Gweithiwr cymdeithasol (blwyddyn gyntaf mewn ymarfer)
- Therapydd iaith a lleferydd
- Gweithiwr cymorth
- Rheolwr tîm (gwaith cymdeithasol)
- Rheolwr datblygu'r gweithlu
- Swyddog datblygu'r gweithlu/Swyddog hyfforddi

Oedran

16 i 24
25 i 34
35 i 44
45 i 54

Rhywedd

- Gwryw
- Benyw
- Rhyweddhylifol
- Anneuaidd

Anabledd wedi'i ddatgan

- Nifer

55 i 64

65+

Oriau gweithio yr wythnos	Statws contract	Swyddi gwag
<ul style="list-style-type: none"> Hyd at 16 awr 16 i 36 awr 36 awr a mwy 	<ul style="list-style-type: none"> Parhaol Dros Dro Dim oriau / Ysbeidiol Gwirfoddol Banc/Asiantaeth 	<ul style="list-style-type: none"> I'w llenwi Eu cadw'n wag

Y Gymraeg

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> Lefel hyfedredd yn y Gymraeg <ul style="list-style-type: none"> Dim gallu Cymraeg – mynediad Cymraeg – sylfaen Cymraeg – canolradd Cymraeg – uwch Hyfedredd (lefel 0 i 5) | <ul style="list-style-type: none"> Saesneg iaith gyntaf Cymraeg iaith gyntaf Iaith gyntaf arall |
|--|--|

Ethnigrwydd

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> Gwyn Cymreig Gwyn Prydeinig Gwyn Gwyddelig Gwyn Ewropeaidd Gwyn ac Asiaidd Gwyn / Du Caribïaidd Gwyn / Du Affricanaidd Gwyn (arall) Du Cymreig Du Prydeinig Du Caribïaidd Du Affricanaidd Du (arall) | <ul style="list-style-type: none"> Asiaidd Cymreig Asiaidd Prydeinig Asiaidd Pacistanaidd Asiaidd Indiaidd Asiaidd Tsieineaidd Asiaidd Bangladeshaidd Asiaidd (arall) Arabiaidd Ethnigrwydd cymysg Cymysg (arall) Ethnigrwydd arall Sipsi / Teithiwr Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|--|--|

Atodiad 2 – Dulliau prosesu data ac amcangyfrif

Cyfraddau cwblhau

Cawsom ddata anghyflawn yng nghasgliad data'r gweithlu 2021, a olygai fod angen i ni ddefnyddio technegau i amcangyfrif rhai ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Cawsom ddata gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Roeddent wedi gallu darparu bron y cyfan o'r data a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau yr oeddent yn gyfrifol yn fewnol am eu darparu. Ond cafwyd amrywiaeth yng ngallu awdurdodau lleol i gasglu data oddi wrth yr holl wasanaethau a gomisiynir sy'n gweithredu yn eu hardal.

Roedd 818 o leoliadau gwasanaethau awdurdodau lleol ac, o'r rhain, darparodd 813 ohonynt ddata (rhannwyd awdurdodau lleol yn fath o wasanaeth a lleoliad, fel cartref gofal, a dyma pam mae'r nifer yn fwy o lawer na'r 22 awdurdod lleol). Mae hyn yn rhoi cyfradd ymateb o 99.4 y cant. O'r 1,902 o ddarparwyr a gomisiynir, roedd 1,360 ohonynt yn gallu darparu data, gan roi cyfradd ymateb gyfan o 71.5 y cant.

Hefyd, roedd gwahaniaeth yn y cyfraddau ymateb rhwng gwahanol feysydd gwasanaeth gofal cymdeithasol.

Mae'r cyfraddau ymateb yn ôl math yn cael eu dangos yn y tabl isod:

Math o wasanaeth	Canran y lleoliadau a adroddodd (Awdurdod lleol)	Canran y lleoliadau a adroddodd (Gwasanaethau a gomisiynir)
Cynlluniau lleoli oedolion	100.0%	100.0%
Staff canolog	100.0%	83.3%
Gwasanaethau dydd	100.0%	61.0%
Gofal cartref	100.0%	66.8%
Gofalwyr maeth	95.0%	96.8%
Arall	-	100.0%
Cynorthwywyr personol	100.0%	100.0%
Gofal preswyl – oedolion	98.9%	61.7%
Gofal preswyl – plant	100.0%	70.3%

Gofal preswyl – gwasanaethau iechyd meddwl	100.0%	76.0%
Timau gwaith cymdeithasol – oedolion	100.0%	100.0%
Timau gwaith cymdeithasol – pawb	100.0%	100.0%
Timau gwaith cymdeithasol – plant	100.0%	100.0%
Gwasanaethau byw â chymorth	90.6%	76.3%
Cyfanswm	99.4%	71.5%

Prosesu data

Fe wnaethom gaffael data ar-lein gan ddefnyddio'n system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) fewnol ac yna tynnom y data a'i baratoi i'w brosesu.

Fe wnaeth y tîm data wirio synnwyr y data a'i ddilysu a, lle cafwyd problemau neu wallau, cysylltom â'r awdurdod lleol a ddarparodd y data i drafod ac ailgyflwyno data, lle y bo'n briodol. Caniataodd hyn i ni leihau'r tebygolrwydd o gynnwys data lle y cafodd diffiniad ei gamddeall neu cofnodwyd ffigurau yn anghywir.

Proseswyd y data gan ddefnyddio offer MS Dynamics ac fe'i broseswyd ymhellach yn MS Excel. Oherwydd dyma'r flwyddyn gyntaf i'r data gael ei gasglu, gwnaed y rhan helaeth o'r gwaith prosesu data â llaw. Wrth i ni ddechrau deall sut caiff data ei ddarparu a'r heriau a wynebwn wrth brosesu data, byddwn yn awtomeiddio llawer o'r tasgau dilysu, glanhau a phrosesu cyn dadansoddi hyn.

Ar ôl i'r data fynd drwy'r broses ddilysu hon, asesom yr opsiynau ar gyfer delio â data coll. Roeddem yn disgwyl data anghyflawn o'r casgliad cyntaf hwn ac roedd ein cynllun dadansoddi yn cyfrif am hyn. Nid oedd angen amcangyfrifon ynghylch data am nodweddion y gweithlu. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddata, gallem brosesu'r rhain fel sampl o'r boblogaeth gyfan. Oherwydd bod maint y sampl ar gyfer pob maes gwasanaeth yn fawr iawn, mae'r lwfans cyfeiliornad yn gymharol isel – cyfrifir ei fod <(+/-) un y cant, ar lefel hyder o 95 y cant ar gyfer pob maes gwasanaeth.

Nid oeddem yn siŵr am ansawdd ychydig o ddata. Ar gyfer y casgliad hwn, nid ydym wedi cynnwys y setiau data hyn gan na allwn fod yn hyderus y byddwn yn creu amcangyfrifon cywir. Byddwn yn gweithio i wella ansawdd y data yn ein casgliadau nesaf.


Amcangyfrif

Golygai data coll fod angen i ni ddefnyddio dulliau i greu amcangyfrifon o gyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol. Y dull gorau a oedd ar gael gennym i wneud hyn oedd allosod, sy'n ddull ystadegol a ddefnyddir i amcangyfrif data anhysbys o'r data hysbys.

Roeddem wedi gallu casglu cyfanswm nifer y gwasanaethau ym mhob awdurdod lleol a gwyddom ba rai o'r gwasanaethau hyn a oedd wedi darparu data i ni. Roeddem wedi gallu defnyddio hyn gyda'r data a gasglom fesul pob math o wasanaeth i greu'r amcangyfrifon a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Yna, roeddem yn gallu triogli'r amcangyfrifon hyn yn erbyn data hysbys eraill i asesu eu cywirdeb ac amcangyfrif cyfradd ein gwallau. O hyn, roeddem wedi gallu creu amcangyfrifon ystod sy'n cynnwys cyfradd ein gwallau. Tybir bod rhai amcangyfrifon yn gymharol gywir o ystyried nifer uchel yr ymatebion. Y meysydd gwasanaeth â'r cyfraddau ymateb is oedd â'r cyfraddau gwallau uchaf (hyd at +/-10.7 y cant ar gyfer gofal cartref). Mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn cynrychioli pwynt canol yr amcangyfrifon hyn. Mae'r gyfradd gwallau gyfan ar gyfer amcangyfrif y gweithlu yn gyfan gwbl tua +/- pump y cant.

Y ffynonellau data cyfeirio a ddefnyddiom i brofi ein hamcangyfrifon yn eu herbyn oedd:

- y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
- data blaenorol SCDWP
- amcangyfrifon yn strategaeth y gweithlu.



Tybiaethau

Mae ein hamcangyfrifon wedi'u seilio ar nifer o ragdybiaethau. Yr hyn sydd amlycaf yw bod maint y darparwyr ar gyfer data a ddychwelyd a data coll yn gyfartal yn fras (hynny yw, nid yw'r holl ddarparwyr mwy ar goll gennym, er enghraifft). Hefyd, tybir bod data arall a ddefnyddiom i driongli ein hamcangyfrifon yn eu herbyn yn gywir.